Digidol 2030

DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Cadernid Covid-19 ar gyfer y sector ôl-16

## Egwyddorion Sylfaenol o ran Llunio Dysgu Cyfunol

Gorffennaf 2020



## Cyflwyniad

Oherwydd yr achosion o COVID-19, aeth Cymru dan ‘gyfnod clo’ ym mis Mawrth 2020. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, dechreuodd staff mewn sectorau ôl-16 arbrofi â thechnolegau gwahanol i ddatblygu ystod o ffyrdd i gyflwyno addysgu, hyfforddiant, dysgu ac asesu o bell a oedd yn bodloni eu dysgwyr orau. Mae’r sectorau ôl-16 a dysgwyr wedi dysgu llawer o’r cyfnod hwn am yr hyn nad yw wedi gweithio’n dda, yr hyn sydd wedi gweithio’n dda a’r hyn y gallai sectorau ôl-16 fod eisiau ei gadw’n rhan o’u harfer.

Wrth i ni symud ymlaen, bydd angen i sectorau ôl-16 gynllunio ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 a’r tu hwnt. Rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn dychwelyd i addysgu a dysgu ar y safle o fis Medi, ond bydd yn hollbwysig bod sectorau ôl-16 yn rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith. Bydd y rhain o bwys er mwyn i addysgu a dysgu allu parhau’n ddi-dor, cyhyd ag y bo’n bosibl, pe byddai angen cyflwyno cyfyngiadau symud mewn ardal benodol.

Yn ystod y cyfnod clo, rhoddodd sectorau ôl-16 bwyslais priodol ar gefnogi lles eu dysgwyr a’u staff, yn ogystal â cheisio parhau i ddarparu dysgu. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, cafodd cyrsiau eu cyflwyno mewn modd tameidiog, wrth reswm. Yn y dyfodol, bydd angen i sectorau ôl-16 ganolbwyntio ar ddarparu cyrsiau a rhaglenni hyfforddiant sydd wedi’u cynllunio’n dda ac sy’n gydlynol er mwyn cynnig profiad dysgu o ansawdd da i ddysgwyr, p’un a gaiff cyrsiau eu cyflwyno wyneb-yn-wyneb neu drwy ddysgu cyfunol. Nid yw’n bosibl, nac yn ddymunol, symud darpariaeth sy’n cael ei chyflwyno wyneb-yn-wyneb ar y safle, fel arfer, yn uniongyrchol i ddysgu cyfunol bob tro. Felly, bydd angen i staff ailedrych ar y cyrsiau a’r rhaglenni hyfforddiant maent yn eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod ganddynt gwrs dysgu cyfunol a rhaglen hyfforddiant addas ar waith, pe byddai angen eu defnyddio.

Mae’r canllawiau hyn wedi cael eu datblygu drwy ymgynghori â’n Gweithgor Dysgu Cyfunol, sy’n cynnwys cynrychiolwyr o’r Cyd-undebau Llafur, Estyn, Jisc, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, ColegauCymru, Cymwysterau Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sefydliadau Addysg Bellach, darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith a phartneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned.


## Llunio dysgu cyfunol

Ar ei symlaf, cyfuniad o ddysgu wyneb-yn-wyneb ar y safle, dysgu cydamserol[1], dysgu anghydamserol[2] ac asesu ar gyfer dysgu ac asesu dysgu o bell yw dysgu cyfunol. Nid yw’r sylwadau sy’n dilyn yn hollgynhwysol nac yn rhagnodol. Cânt eu

[1] Mae dysgu cydamserol yn cyfeirio at ddysgu ar-lein y gall dysgwyr gymryd rhan ynddo mewn amser real.
[2] Mae dysgu anghydamserol yn cyfeirio at ddysgu ar-lein, ond lle nad oes unrhyw ryngweithio â dysgwyr eraill neu’r tiwtor mewn amser real.

cynnig fel awgrymiadau i helpu staff i ystyried y camau i’w cymryd i lunio cyrsiau a rhaglenni hyfforddiant dysgu cyfunol cydlynol.  Bydd angen i ddarparwyr ôl-16 addasu dyluniad a thechnegau dysgu cyfunol i ystyried natur eu dysgwyr; er enghraifft, bydd anghenion dysgwyr yn y gwaith yn wahanol i anghenion oedolion sy’n dysgu yn y gymuned.  Fodd bynnag, y prif fater i bob sector yw sicrhau eu bod yn llunio cyrsiau a rhaglenni hyfforddiant a fydd yn gweithio’n effeithiol i greu canlyniadau o ansawdd uchel gan ddefnyddio technegau dysgu cyfunol.  I’r perwyl hwn, mae angen i lunio profiadau dysgu o ansawdd uchel, sy’n ymestyn ac yn herio dysgwyr, gael blaenoriaeth dros ddewis y dechnoleg i gyflwyno’r dysgu a’r hyfforddiant, ac wedyn dewis y dechnoleg orau i gyflwyno’r dysgu.

*Cylchred datblygu ar gyfer dysgu cyfunol*




**Cam 1: Amseru**

- Y cam cyntaf yw ystyried am ba hyd y bydd y cwrs neu’r rhaglen hyfforddiant dysgu cyfunol yn para.  Mewn amgylchiadau arferol, mae cyrsiau addysg bellach a dysgu oedolion yn y gymuned wedi’u hamseru fel nifer o sesiynau dros nifer o wythnosau, lle mae’r cwrs wedi’i addysgu ar y safle yn unig.
- Mae dysgu mewn sefyllfa dysgu cyfunol yn golygu y bydd angen syniad clir ar ddysgwyr o hyd cyffredinol y cwrs ac, yn benodol, faint o amser y mae staff yn disgwyl i ddysgwyr ei roi i’r rhan o’r cwrs sy’n cynnwys dysgu anghydamserol.
- Bydd hyn yn arbennig o bwysig pan fo cyrsiau’n rhan-amser oherwydd, yn aml, bydd angen i ddysgwyr drefnu gwaith arall, astudiaethau neu ymrwymiadau gofal ochr yn ochr â’u dysgu cyfunol.  Yn ogystal, mae angen i ddysgwyr sy’n cael budd-daliadau penodol wybod beth yw eu hymrwymiad astudio disgwyliedig er mwyn iddynt allu gwirio eu bod yn bodloni’r meini prawf ar gyfer y budd-daliadau hynny.

**Cam 2: Canllawiau**

- Bydd angen i staff lunio arweiniad sy'n rhoi syniad ysgrifenedig clir i ddysgwyr o nodau ac amcanion dysgu cyffredinol y cwrs neu'r rhaglen hyfforddiant, yn ogystal â'r nodau ac amcanion dysgu penodol a'r meini prawf asesu sy'n gysylltiedig â'r system raddio a'r polisi marcio ar gyfer pob uned/modiwl.
- Gallai staff amlinellu hyn mewn llawlyfr i ddysgwyr ar y cwrs neu ei amlinellu ar ddechrau'r cwrs a dechrau pob isadran.

**Cam 3: Dilyniannu**

- Wrth roi'r dysgwr wrth wraidd eu myfyrdodau, bydd angen i staff ystyried y dulliau a'r dilyniannau gwahanol ar gyfer cyflwyno ac asesu'r cynnwys mewn dysgu cyfunol.
- Yn y model a ddangosir ar dudalen 3, mae'n tybio y bydd y drefn ar gyfer cyflwyno yn dechrau ag addysgu wyneb-yn-wyneb ar y safle. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid i gwrs, rhaglen hyfforddiant neu ddarparwr. Mae'n rhoi cyfle i ddysgwyr gyfarfod â'r staff a phobl eraill wyneb-yn-wyneb cyn dechrau cydweithio â'i gilydd ar-lein.
- Mae hefyd yn galluogi staff i ddarganfod lefel medrau digidol a chysylltedd dysgwyr, a darganfod a oes angen technoleg gynorthwyol neu gymorth ychwanegol ar unrhyw ddysgwyr â'u dysgu. Mae sesiwn gychwynnol wyneb-yn-wyneb yn galluogi staff i roi cyflwyniadau ar y gwaith, cyflwyno cysyniadau a syniadau newydd, a chael gwybod am unrhyw faterion bugeiliol cyn i ddysgwyr ddechrau gweithio ar-lein.
- Erbyn yr ail sesiwn wyneb-yn-wyneb yn y gyfres, gall staff ehangu'r defnydd o'r sesiwn i adolygu dysgu, yn ôl yr angen. Pan nad oes cyfyngiadau symud, gall sesiynau wyneb-yn-wyneb ddigwydd yn wythnosol. Fodd bynnag, yn ystod cyfyngiadau symud, gall fod mwy o amser rhwng sesiynau wyneb-yn-wyneb, er enghraifft un sesiwn wyneb-yn-wyneb bob dwy neu dair wythnos, a dull addysgu a dysgu arall mewn trefn â hyn. Pan fydd cyfyngiadau symud mewn ardal, neu yng Nghymru yn ei chyfanrwydd, ni fydd yn bosibl cynnig dysgu wyneb-yn-wyneb. Yn yr achosion hyn, bydd angen i staff ddefnyddio sesiynau dysgu cydamserol yn lle hynny.

**Cam 4: Technegau ar gyfer Addysgu a Dysgu**

- Wrth gynllunio'r cwrs neu'r rhaglen hyfforddiant, neu is-rannau ohonynt, dylai staff ystyried sut i sicrhau bod dysgu mor weithgar â phosibl i ddysgwyr.
- Bydd angen i staff gynllunio'n ofalus am ba hyd y bydd y sesiynau hyn yn para a pha bryd y cânt eu cynnal, yn enwedig i fodloni dysgwyr a all fod yn astudio wrth weithio. Efallai y bydd angen i'r sesiynau hyn fod yn fyrrach na'r sesiynau arferol er mwyn sicrhau nad yw dysgwyr yn blino ar fod o flaen sgrin.
- Dylai staff roi amlinelliad clir o'u cynllun a rhan y dysgwyr yn y sesiwn ar y dechrau; er enghraifft, p'un a ddylent wneud nodiadau, cofnodi cwestiynau sy'n codi, gwneud nodyn o eirfa newydd sy'n gysylltiedig â'r pwnc er mwyn iddynt ymchwilio iddi'n ddiweddarach.
- Mae ffrydio'n fyw yn rhoi cyfle i staff adeiladu ar y cyflwyniadau a'r rhagarweiniad i gysyniadau a syniadau a roddwyd mewn dysgu wyneb-yn-wyneb ar y safle neu fel rhan o weithgareddau dysgu annibynnol. Gallant ddefnyddio arddangosiadau i gyfoethogi syniadau a gyflwynwyd yn flaenorol a gofyn cwestiynau heriol, addas i

symbylu ac ymestyn meddyliau dysgwyr a'u paratoi ar gyfer sesiynau cydamserol ac anghydamserol.

**Cam 5: Sesiynau cydamserol**

- Mae sesiynau cydamserol yn cynnig cyfle da i atgyfnerthu dysgu drwy weithgareddau fel cyflwyniadau dysgwyr, trafodaethau ymhlith dysgwyr, gwaith mewn parau a grwpiau, a chyfleoedd asesu ffurfiannol a hunanasesu i ddysgwyr drwy bethau fel cwisiau.
- Efallai y bydd angen i sesiynau cydamserol fod yn hwy na sesiynau ffrydio byw, er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr ymgymryd â gwaith mewn parau a grwpiau.

**Cam 6: Sesiynau amghydamserol**

- Mae sesiynau anghydamserol yn rhoi cyfle i ddysgwyr atgyfnerthu eu dysgu drwy ystod o ddulliau, er enghraifft astudio'n annibynnol drwy fideos, podlediadau, gwaith cwrs, gweithgareddau mewn rhith-amgylcheddau dysgu, dogfennau ar y cyd, aseiniadau ac asesu.
- Mae'n bwysig bod staff yn rhoi trosolwg ysgrifenedig o'r gwaith y bydd dysgwyr yn ei gwblhau yn ystod dysgu anghydamserol, ac yn rhoi brasamcan o'r amser y dylai ei gymryd i'r dysgwr gwblhau'r gwaith. Mae hyn yn helpu'r dysgwr i beidio â gweithio gormod ar y deunydd neu beidio â gweithio digon arno. Gallai fod yn ddefnyddiol rhoi'r disgrifiad o'r gwaith mewn 'talpiau', gan roi syniad cychwynnol i'r dysgwr o'r amcanion dysgu y dylai eu cyflawni erbyn diwedd yr adran, ac annog y dysgwyr i ymgymryd â gweithgareddau fel darllen, ymchwilio, rhoi trefn ar eu dysgu a'u safbwyntiau, ysgrifennu aseiniadau. Mae'n ddefnyddiol dilyn y gweithgaredd i ddysgwyr drwy roi nodiadau ar y prif bwyntiau y dylai dysgwyr fod wedi'u dysgu drwy ymgymryd â'r 'talp' hwnnw o waith.
- Bydd angen i staff gynllunio'r sesiynau hyn fel pe byddant yn eu cyflwyno wyneb-yn-wyneb, a sicrhau bod eu disgrifiadau ysgrifenedig o'r gwaith y dylai dysgwyr fynd i'r afael ag ef yn cynnwys cyfeiriadau priodol drwy hyperddolenni neu fanciau adnoddau. Mae hyn yn cynnig cydraddoldeb. Mae'n helpu dysgwyr i fanteisio ar y deunyddiau sydd eu hangen arnynt i astudio'n haws a pheidio â gwastraffu amser astudio gwerthfawr.
- Dylai staff sicrhau y caiff y gwaith ei drefnu a'i wahaniaethu'n ddigonol i herio dysgwyr yn briodol.
- Gallai rhan o waith anghydamserol gynnwys ymgymryd ag aseiniadau ysgrifenedig neu brosiectau, y bydd dysgwyr yn eu cyflwyno ar gyfer asesu ffurfiannol a graddio. Mae angen i staff roi arweiniad clir ar sut i gyflwyno gwaith, y dyddiadau y mae'n rhaid cyflwyno gwaith ac erbyn pryd y bydd dysgwyr yn cael adborth a deilliannau.

**Cam 7: Asesu**

- Bydd asesu rheolaidd a rhoi adborth/rhagborth sy'n canolbwyntio ar ymestyn a herio dysgwyr yn parhau'n elfennau pwysig o brofiad dysgwyr os ydynt am wneud cynnydd cyson.
- Dylai staff greu cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr hunanasesu eu dysgu a chael eu hasesu'n ffurfiannol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, ar ddiwedd yr isadran o'r cwrs neu'r rhaglen hyfforddiant, bydd angen cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu dysgu drwy asesu crynodol.

- Bydd adborth clir a rheolaidd sy’n adlewyrchu’r arfer effeithiol o ddadansoddi meysydd i’w gwella, awgrymiadau ar sut i wella, a thargedau ymestynnol a heriol yn fwy arwyddocaol i ddysgwyr sy’n gweithio o bell.
- Gall staff gyfoethogi’r adborth ysgrifenedig â sesiwn wyneb-yn-wyneb neu alwad ffôn gefnogol i drafod y sylwadau a wnaed, a chytuno â’r dysgwr ar gynllun unigol ar gyfer sut y gall wella ac unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod angen arno/arni.

**Cam 8: Technoleg**

- Bydd angen i staff edrych yn ôl ar yr hyn y maent wedi’i gynllunio ar gyfer y cwrs neu’r rhaglen hyfforddiant a gwneud penderfyniad nawr ar y feddalwedd orau i gyflwyno’r addysgu a’r hyfforddiant, a fydd yn gweithio â’r galedwedd sydd gan ddysgwyr. (Mewn sectorau penodol, efallai y bydd darparwyr wedi penderfynu ar ba feddalwedd i’w defnyddio ar draws y sefydliad ac, os felly, bydd angen i staff ystyried hyn.)
- Mae llawer o becynnau meddalwedd gwahanol ar gael i gyflwyno dysgu, ond y peth callaf yw canfod lefel a chymhwysedd medrau digidol y staff a’r dysgwyr, ‘cadw pethau’n syml’ a defnyddio un neu ddau becyn meddalwedd y gall pob dysgwr fanteisio arnynt a’u defnyddio’n gymwys.
- Wrth benderfynu ar ba feddalwedd a phlatfformau i’w defnyddio, bydd angen i staff ystyried archwiliadau o anghenion ymarferwyr a dysgwyr a’u gallu i fanteisio ar feddalwedd hefyd. Fodd bynnag, at ei gilydd, dylai’r dechnoleg sy’n cael ei dewis ategu’r addysgu neu’r hyfforddiant, yn hytrach na’i bennu. Y perygl wrth beidio â gwneud hyn yw y caiff gormod o amser ei golli wrth geisio sicrhau bod ystod o becynnau’n gweithio’n briodol, a fydd yn tynnu oddi wrth amser dysgu gwerthfawr.

## Cymorth ac arweiniad

### Datblygu medrau dysgwyr o ran dysgu o bell

Gellir addasu’r model a awgrymir uchod gan ddibynnu ar y sefyllfa ar y pryd, y ffordd y mae’r dysgu wedi’i lunio ac anghenion dysgwyr unigol. Y peth pwysicaf yw bod staff yn cyfleu i ddysgwyr sut bydd y cwrs yn gweithio a’r disgwyliadau o ddysgwyr o ddechrau’r cwrs.

Mae dysgu’n effeithiol o bell yn mynnu medrau gwahanol i ddysgu mewn amgylchedd wyneb-yn-wyneb. Mae llawer o ddysgwyr yn ei chael hi’n hawdd dysgu o bell; mae eraill yn ei chael yn anoddach o lawer. Y prif fedrau sydd eu hangen ar ddysgwyr o bell yw medrau da o ran rheoli amser, a’r gallu a’r lle i weithio’n annibynnol, yn ogystal â’r gallu i ddefnyddio technoleg yn effeithiol. Felly, wrth gynllunio dull dysgu cyfunol, mae’n bwysig helpu dysgwyr i ddeall o’r cychwyn yr amodau a’r medrau sydd eu hangen ar ddysgwyr i ymgysylltu’n llwyddiannus a gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Mae’n ddefnyddiol rhoi arweiniad ysgrifenedig i ddysgwyr a chyfle i drafod sut y gallai fod angen iddynt drefnu eu hunain, yn enwedig o ran cymryd rhan mewn dosbarthiadau wedi’u ffrydio’n fyw a dysgu cydamserol, yn ogystal â sicrhau eu bod yn rheoli eu hamser a lle yn effeithiol i gwblhau’r dysgu anghydamserol. Efallai nad yw dysgwyr yn byw mewn amgylchiadau sy’n caniatáu llawer o breifatrwydd wrth weithio’n gydamserol ar-lein, neu efallai nad oes ganddynt le i weithio’n effeithiol yn

anghydamserol yn y cartref.  Efallai y bydd angen awgrymiadau a chymorth arnynt i oresgyn y problemau hyn.

**Cefnogi lles staff**

Mae yr un mor bwysig i gynnig system dda o gefnogaeth i helpu dysgwyr, yn ôl yr angen.  Fodd bynnag, er lles staff, mae'n bwysig eu bod yn rhoi gwybod i ddysgwyr ar ddechrau'r cwrs pa bryd a sut y gellir cysylltu â nhw, ac ymhen pa gyfnod amser y gall dysgwyr ddisgwyl gael ateb i'w hymholiad.  Er enghraifft, gallai hyn olygu datgan yn y llawlyfr i ddysgwyr y gall dysgwyr gysylltu â'r tiwtor rhwng amseroedd penodol yn ystod y diwrnod gwaith, ac y gall dysgwyr ddisgwyl cael ateb i'w hymholiadau ymhen pedair awr ar hugain, er enghraifft.  Dylai fod arweiniad hefyd ar sut gall dysgwyr gysylltu â gwasanaethau eraill, er enghraifft os na allant fynd at y system, neu os oes angen cymorth ariannol neu gefnogaeth lles arnynt.

Efallai yr hoffai arweinwyr roi arweiniad sefydliadol i staff ar y materion uchod er mwyn sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei grybwyll a'i ddisgwyl yn unol â rhwymedigaethau cytundebol staff.

## Llyfryddiaeth

***Essentials for Blended Learning:  A Standards-Based Guide***
Jared Stein, Charles R Graham
Golygydd y Gyfres, Majorie Vai
Routledge
ISBN: (ebk) 978-0-203-07525-8
ISBN: (pbk) 978-0-415-63616-2

***The Online Teaching Survival Guide***
Simple and Practical Pedagogical Tips
Judith V Boettcher
Rita-Marie Conrad
Ail Argraffiad
Jossey-Bass
ISBN: (pbk) 978-1-119-14768-8
ISBN: (ebk) 978-1-119-14770-1

***Rethinking Pedagogy for a Digital Age***
Principles and Practices of Design
Golygwyd gan Helen Beetham a Rhona Sharpe
Trydydd Argraffiad
Routledge
ISBN: (pbk) 978-0-815-36926-4
ISBN: (ebk) 978-1-351-25280-5